

TAG SAFON UWCH



TAG SAFON UWCH CBAC  
ASTUDIAETHAU  
CREFYDDOL  
ACHREDWYD GAN LYWODRAETH CYMRU

GEIRFA ALLWEDDOL  
CRISTNOGAETH

Addysgu o 2016



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Lywodraeth Cymru ar gael i ganolfannau yn Lloegr.

| ASTUDIO CRISTNOGAETH: GEIRFA |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
|------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| TERM                         | DIFFINIAD                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
| addoli                       | Gweithred o glodfori duwdod, neu o ddiolchgarwch, defosiwn neu debyg.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |
| -addoli cyhoeddus            | Addoli mewn grŵp, fel arfer gydag un arweinydd neu fwy. Gall hyn gynnwys gwasanaethau eglwys, cyfarfodydd gweddi dan arweiniad, ac ati.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |
| -addoli preifat              | Addoli mewn lleoliad preifat, fel arfer gan unigolyn. Gall hyn gynnwys gweddi breifat, adrodd y Llaswyr (Catholigiaeth), arfer Lectio Divina ac ati.                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |
| apocryffaidd                 | Yn ymwneud â gwaith apocryffaidd. Yn y cyd-destun hwn, mae gweithiau apocryffaidd yn destunau sy'n ymwneud ag amseroedd, lleoedd neu gymeriadau beiblaidd (fel arfer), ond nad ydynt yn rhan o ganon crefyddol. Fel arfer, mae eu hawdur yn anhysbys a/neu ceir amheuon ynghylch eu dilysrwydd. Yn y cyd-destun hwn, ni ddylid drysu'r gwaith yma â'r casgliad o lyfrau sydd i'w gweld mewn rhai argraffiadau o'r Beibl, sy'n cael eu hadnabod fel 'yr Apocryffa'. |
| Asgetigiaeth                 | Ymatal rhag pleserau bydol (e.e. profiadau corfforol pleserus neu eiddo materol), fel arfer er mwyn sicrhau twf ysbrydol.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
| athrawiaeth cymhwysiad       | Mae'r athrawiaeth (neu'r ddamcaniaeth) cymhwysiad yn cynnig bod Duw wedi ei 'ymgymhwyso' ei hun ar gyfer y ddynoliaeth trwy ddefnyddio termau a chysyniadau dynol perthnasol a dealladwy. Mae modd defnyddio hyn i egluro, er enghraifft, pam mae naratifau'r creu yn y Beibl yn agosach at fytholegau eraill y cyfnod nag at ddealltwriaeth wyddonol fodern.                                                                                                      |
| canon (beiblaidd)            | Y canon beiblaidd yw'r rhestr o lyfrau sy'n cael eu hadnabod fel yr ysgrythur awdurdodol, ac sydd felly yn rhan o'r Beibl Cristnogol. Noder bod y llyfrau sydd yn y Beibl, a threfn y llyfrau hynny, yn wahanol mewn rhai enwadau Cristnogol.                                                                                                                                                                                                                      |
| Cyngor Eglwysi'r Byd         | Sefydliad rhyngwladol sy'n cynnwys y rhan fwyaf o eglwysi Cristnogol y byd (heb gynnwys yr eglwys Gatholig Rufeinig) sy'n anelu at annog trafodaeth a dealltwriaeth rhwng enwadau Cristnogol.                                                                                                                                                                                                                                                                      |
| Cynhadledd Genhadol y Byd    | Gelwir hefyd yn 'Gynhadledd Genhadol y Byd 1910' neu 'Gynhadledd Genhadol Caeredin. Cyfarfod rhwng y prif eglwysi Protestannaidd a'r prif grwpiau cenhadol; credir weithiau mai dyma ddechrau'r mudiad eciwmenaidd Protestannaidd.                                                                                                                                                                                                                                 |

| TERM                            | DIFFINIAD                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
|---------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Cynhwysiaeth                    | Y gred, er mai dim ond un grefydd neu system gred sy'n wir, y gall eraill fod yn rhannol wir hefyd.                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
| delfryd asgetig                 | Defnyddio asgetigiaeth i sicrhau bod pŵer a/neu fywyd yn cael eu gwarchod.                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |
| diwinyddiaeth rhyddhad          | Defnyddir yma yn bennaf i gyfeirio at ddiwinyddiaeth rhyddhad yn Ne America, ond gall gwmpasu llawer o safbwyntiau diwinyddol sy'n anelu at ryddhau grŵp dan ormes (e.e. diwinyddiaeth Ddu, diwinyddiaeth rhyddhad Palestinaidd).                                                                                                                                                     |
| Duw bylchau                     | Yr enw a roddir i'r broses o alw ar y dwyfol i lenwi bylchau mewn gwybodaeth wyddonol, a ddefnyddir wedyn fel tystiolaeth bod y dwyfol yn bodoli. Tanseiliwyd hyn bellach fel <b>cyfiawnhad diffyniadol</b> .                                                                                                                                                                         |
| efengyl ffyniant                | Y gred mai bendith gan Dduw yw sicrwydd ariannol a llwyddiant ac y bydd ffydd a/neu weithredoedd da yn arwain at wobrwyo materol gan Dduw. Gelwir hefyd yn 'ddiwinyddiaeth ffyniant'.                                                                                                                                                                                                 |
| hollgyffredinolrwydd            | Yn fras, y gred y bydd pob bod dynol (ac weithiau pob anifail neu bob bod byw) yn cael ei achub.                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
| hollgyffredinolrwydd Cristnogol | Y gred y bydd pob bod dynol yn y pen draw yn cael ei gymodi â Duw yn y nefoedd ac y bydd perthynas gyfiawn rhyngddo a Duw.                                                                                                                                                                                                                                                            |
| meseia                          | Gair Hebraeg yn golygu 'eneiniog', a ddefnyddir yn bennaf yn y crefyddau Abrahamaidd i ddynodi arweinydd gwleidyddol, cymdeithasol neu grefyddol. O fewn Cristnogaeth, mabwysiadwyd y term 'Meseia' (sy'n cyfieithu i Christos mewn Groeg, felly 'Crist') fel teitl i'r Iesu ac mae bellach yn awgrymu dwyfoldeb, er nad yw'r ystyr hwn yn perthyn i'r gair y tu hwnt i Gristnogaeth. |
| Mudiad Carismataidd             | Term sy'n disgrifio'r broses o fabwysiadu credoau ac arferion carismataidd mewn eglwysi traddodiadol prif ffrwd.                                                                                                                                                                                                                                                                      |
| mudiad cenhadaeth wrthdro       | Term a ddefnyddir o safbwynt y DU/safbwynt Gorllewinol i ddisgrifio efengylwyr a anfonwyd i'r Gorllewin o ardaloedd a oedd yn draddodiadol yn cael sylw gan genhadon o'r Gorllewin.                                                                                                                                                                                                   |
| Mudiad Eciwmenaidd              | Enw'r mudiad (Cristnogol) sy'n anelu at uno pob enwad Protestannaidd, ac yn y pen draw, y Cristnogion i gyd.                                                                                                                                                                                                                                                                          |
| Neilltuoiaeth                   | Y gred mai dim ond un grefydd, system gred, neu enwad weithiau, sy'n wir.                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
| ordeinio                        | Enw'r broses lle caiff unigolion eu paratoi a'u neilltuo i weithredu fel arweinwyr crefydd/enwad penodedig; mae hyn fel arfer yn cynnwys y gallu a'r caniatâd i gyflawni defodau crefyddol penodol.                                                                                                                                                                                   |
| plwraliaeth                     | Yn y cyd-destun hwn, y gred bod pob crefydd a system gred yr un mor ddilys â'i gilydd, ac yn honni'r gwirionedd i'r un graddau â'i gilydd.                                                                                                                                                                                                                                            |

| TERM                | DIFFINIAD                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
|---------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| realaeth feirniadol | Yn y cyd-destun hwn, mudiad sy'n cynnwys gwyddonwyr a ddaeth i fod yn ddiwinyddion, a'r ddadl bod modd defnyddio iaith gwyddoniaeth ac iaith diwinyddiaeth Gristnogol yn yr un sgwrs gan fod y ddwy mor debyg. Mae realaeth feirniadol yn rhagdybio bod gwrthrych yr ymchwil (y dwyfol yn aml) yn real, ond mai dim ond trwy ddeialog rhwng yr unigolyn sy'n gwybod a'r peth sy'n wybyddus y gellir cael y wybodaeth honno.                                                                                         |
| rhyddid crefyddol   | Rhyddid unigolion a grwpiau i addysgu, arfer a chadw crefydd neu system gred benodedig, yn ogystal â'r rhyddid i newid rhwng crefyddau a systemau cred (neu i/o ddim crefydd neu system gred). Gelwir hefyd yn "rhyddid cred" "rhyddid crefydd". Yn y DU, mae hyn hefyd yn golygu bod rhyddid gan unigolion a grwpiau i addysgu, arfer a chadw crefydd heblaw crefydd y wladwriaeth (Cristnogaeth Anglicanaidd).                                                                                                    |
| stiwardiaeth        | Y gred bod bodau dynol yn gyfrifol am ofalu am y ddaear a'r bodau a'r adnoddau arni. O fewn Cristnogaeth, mae hyn fel arfer yn cyd-fynd â'r gred bod y ddaear (a'i chreaduriaid a'i hadnoddau) wedi'i chreu gan Dduw ac yn eiddo i Dduw, ond ei bod o dan ofal bodau dynol.                                                                                                                                                                                                                                         |
| ysbrydoliaeth       | Mae ysbrydoliaeth Feiblaidd yn cyfeirio at yr athrawiaeth Gristnogol sy'n arddel bod darnau penodol gan awduron a golygyddion beiblaidd wedi'u tywys neu eu llywio'n ddwyfol, ac o ganlyniad y gellir ystyried mai gair Duw yw'r testunau beiblaidd. O fewn Cristnogaeth, mae 'ysbrydoliaeth' yn cael ei diffinio mewn sawl ffordd – gweler <a href="http://www.gotquestions.org/inspiration-theories.html">http://www.gotquestions.org/inspiration-theories.html</a> i gael cyflwyniad byr i'r prif ddehongliadau. |